# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Brookfield House**

**Brookfield House**
**Heol yr Orsaf Sanclêr**
**Caerfyrddin**
**SA33 4BZ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

09/10/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Brookfield House

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Fronhaul and Brookfield Care Home Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 23 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 6 Rhagfyr 2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb


Mae Cartref Gofal Brookefield yn darparu gofal a chymorth i bobl ag anghenion iechyd cymhleth. Caiff y bobl eu cefnogi gan staff gwybodus, angerddol a gofalgar, y maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â nhw. Mae tîm sefydlog o reolwyr a staff sy'n helpu i sicrhau parhad gofal i'r bobl.

Caiff cynlluniau personol manwl eu llunio a'u hadolygu gyda'r rhai sy'n derbyn cymorth, ac mae'r cynlluniau hyn yn arwain y staff gofal o ran sut y gellir diwallu anghenion a chyflawni canlyniadau'r unigolion. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau ac maent yn cael cyfle i fynegi barn am faterion sy'n effeithio arnynt. Caiff gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eu cynnwys yn agos wrth ddarparu cymorth i'r bobl, a cheir cysylltiadau cryf â'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol. Mae protocolau sefydledig yn golygu nad yw rhyddid y bobl yn cael ei gyfyngu'n ddiangen ac mae cynlluniau rheoli risg yn helpu i sicrhau bod y bobl mor ddiogel ac annibynnol â phosibl.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn goruchwylio'r gwasanaeth yn  effeithiol ac yn cynnal archwiliadau manwl i fonitro ac adolygu ansawdd y gofal a ddarperir. Caiff staff gofal eu recriwtio'n ddiogel a chânt sesiynau goruchwylio a hyfforddiant yn rheolaidd.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau. Gallant wneud dewisiadau ynglŷn â sut i dreulio eu diwrnod, yr hyn y maent am ei fwyta, i ble y maent am fynd, a'r hyn y maent am ei gyflawni. Cânt eu cynnwys yn y broses o lunio eu cynlluniau personol ac mae'r staff gofal yn eu cefnogi i wneud yr hyn y maent am ei wneud yn unol â'u cynlluniau. Mae'r staff yn barchus ac yn sicrhau y caiff lleisiau unigolion eu clywed. Mae'r gweithwyr allweddol yn cymryd amser i wrando ar yr hyn sy'n bwysig i'r bobl, ynghyd â'u nodau, eu dymuniadau a'u dewisiadau. Gwelsom fod y staff yn curo'n gwrtais ar ddrysau'r bobl cyn mynd i mewn i'w hystafell.

Mae'r bobl yn mwynhau bod yn rhan o gymuned ac maent yn cael eu cefnogi i ymweld â siopau, bwytai/caffis a grwpiau lleol. Maent yn teimlo'n ddiogel ac maent wedi meithrin cydberthnasau o fewn y gymuned, gan greu ymdeimlad o berthyn. Dywedodd aelod o'r staff wrthym, "*It's great because people are well known by the locals in the area*", a dywedodd gweithiwr proffesiynol wrthym, *"For some residents, moving to Brookfield House has been life changing and they are now enjoying life in a community setting and feel part of that community".* Mae'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn cefnogi eu banc bwyd lleol yn rheolaidd ac yn cael eu gwerthfawrogi gan y gymuned.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'r staff gofal wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu ac maent yn ymwybodol o'r weithdrefn ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw bryderon. Caiff iechyd a llesiant y bobl eu hybu gan fod y staff gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn sylwi ar newidiadau a allai olygu bod eu hiechyd yn dirywio. Caiff llesiant y bobl ei fonitro'n agos gan y staff, sy'n rhoi gwybod am unrhyw bryderon ac yn ceisio cyngor gan weithwyr iechyd proffesiynol mewn modd amserol.

Mae'r amgylchedd yn cefnogi'r bobl i fyw mor annibynnol â phosibl. Mae gwiriadau cynnal a chadw ac archwiliadau trylwyr o'r adeilad a'i gynnwys yn sicrhau diogelwch y bobl sy'n gweithio ac yn byw yn y gwasanaeth. Mae'r amserlen lanhau ddyddiol yn cadw'r amgylchedd yn lân ac yn hylan. Mae'r adeilad yn ddiogel ac mae'n rhaid i bobl ganu'r gloch er mwyn i aelod o'r staff eu gadael i mewn. Gofynnir i bob ymwelydd lofnodi llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd/gadael.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn fodlon ar y cymorth y maent yn ei gael. Mae gan y gwasanaeth dîm cyson o staff, y mae'r bobl wedi meithrin cydberthnasau gwaith cadarnhaol â nhw. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn ymateb yn sensitif i'w hanghenion. Gwelsom ryngweithio ymlaciol a chyfeillgar rhwng y staff a'r bobl. Dywedodd gweithiwr proffesiynol wrthym, *"The residents on my caseload always talk of the home and the care given in a positive manner, both residents and staff appear happy and supportive of each other".*

Anogir y bobl i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt. Caiff un unigolyn ei gefnogi i ofalu am ei gathod. Caiff eraill eu hannog a'u galluogi i ddilyn eu hobïau a'u diddordebau, megis garddio a thyfu cynnyrch yn y tŷ gwydr, a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned leol. Gwelsom fod darnau o waith celf wedi'u creu gan y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn cael eu harddangos ar y waliau. Dywedodd un unigolyn,*"It's ok here, I want to be home though, the staff are good".* Dywedodd unigolyn arall wrthym yn frwdfrydig, "*Mae'r staff yn grêt, maen nhw'n helpu fi, mynd allan â fi, i'r siop neu mas am fwyd".*

Mae'r cynlluniau personol yn glir, yn fanwl ac yn cael eu llunio ar y cyd â'r unigolyn, ei gynrychiolwyr, a gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'i ofal a'i gymorth. Cynhelir asesiadau risg manwl, a chaiff ffactorau risg personol eu nodi'n glir. Mae'r cynlluniau personol effeithiol iawn yn arwain y staff o ran y camau i'w cymryd i reoli'r risg honno, gan hyrwyddo annibyniaeth yr un pryd. Mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i atal aildderbyniadau i'r ysbyty ac mae un unigolyn wedi setlo er bod nifer o'i leoliadau blaenorol wedi methu. Dywedodd gweithiwr proffesiynol, *"The home has played a significant role in easing the revolving door effect for their residents and I would advocate the home to my colleagues".*

Mae'r cofnodion dyddiol trylwyr yn nodi manylion megis cyflwr meddyliol y bobl a'u hymddangosiad. Oherwydd anghenion penodol y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, mae monitro ac adnabod unrhyw arwyddion o ailwaelu a cheisio cymorth ychwanegol mewn modd amserol, yn hanfodol i sicrhau eu llesiant. Roedd archwiliad a gynhaliwyd gan y GIG yn ddiweddar yn gadarnhaol iawn, a nodwyd bod y cofnodion gofal yn fanwl ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

Caiff meddyginiaeth ei rhoi'n ddiogel a'i hadolygu'n rheolaidd. Mae'r tîm rheoli yn mynd i'r afael ag unrhyw wallau, ac yn cynnig cymorth a hyfforddiant i'r staff dan sylw. Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag niwed. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelu a chwythu'r chwiban ac maent yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn os bydd ganddynt unrhyw bryderon.

## Yr Amgylchedd

Mae'r adeilad yn fawr ac yn groesawgar. Mae cymysgedd o ystafelloedd cymunedol mawr ac ardaloedd clyd llai os yw'r bobl am gael rhywle tawelach i eistedd ac ymlacio. Mae setiau teledu mawr yn yr ystafelloedd cymunedol ac mae ardal cyfrifiaduron ar gael y gall y bobl ei defnyddio i gael mynediad at y rhyngrwyd er mwyn siopa ar-lein neu ddefnyddio sianeli fideo a cherddoriaeth amrywiol. Mae ystafell smygu yng nghefn y tŷ, sy'n cael ei defnyddio'n aml. Mae ardal awyr agored fawr sy'n cynnwys lawnt, tŷ gwydr ac ardaloedd patio yn galluogi'r bobl i ymlacio yn yr awyr agored yn ystod cyfnodau o dywydd cynhesach. Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r ardaloedd patio yn ddiweddar, gan ddarparu ardal ddiogel i'r bobl ei mwynhau.

Mae cynllun addurno a diweddaru parhaus ar waith yn yr amgylchedd dan do. Mae nifer digonol o ystafelloedd ymolchi cymunedol, toiledau ac ystafell wlyb, sy'n cael eu cadw'n lân ac mewn cyflwr da. Mae ystafelloedd y bobl yn amrywio o ran maint ac mae gwaith yn mynd rhagddo'n barhaus i'w diweddaru, gan gynnwys gosod ffenestri newydd mewn dwy ystafell wely yn ddiweddar. Anogir y bobl i addurno eu hystafelloedd gwely fel y mynnant, a gwelsom ystafelloedd wedi'u personoli gydag eitemau o'u dewis. Mae gan un unigolyn gathod yn ei ystafell, a chaiff ei gefnogi i ofalu amdanynt.

Mae'r clychau galw wedi'u cysylltu â galwyr unigol. Mae hyn yn achosi llai o darfu na phe bai clychau'n canu ym mhob rhan o'r adeilad, ac mae'n lleihau'r risg y bydd y bobl yn mynd yn bryderus ac yn ofidus.

Caiff risgiau i iechyd a diogelwch y bobl eu nodi ac mae trefniadau ar waith i leihau'r risgiau hyn. Caiff mynedfa'r adeilad ei chadw ar glo ac mae'n rhaid i ymwelwyr ganu'r gloch er mwyn cael eu gadael i mewn. Gofynnir i ymwelwyr lofnodi llyfr wrth gyrraedd. Caiff cyfarpar diffodd tân a chyfarpar symud a chodi eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd a gwelsom archwiliadau a gwiriadau gwasanaethu cyfredol. Caiff ymarferion tân rheolaidd eu cynnal.

Caiff y gegin ei chadw'n lân ac mae'n cynnwys digon o gyflenwadau a chyfarpar. Mae gan y rhan fwyaf o'r bobl oergell fach yn eu hystafell wely er mwyn storio eitemau o fwyd a diod a brynwyd ganddynt. Mae digon o le storio a chaiff cynhyrchion Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) eu storio'n ddiogel yn unol â rheoliadau COSHH.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae ethos galluogi a sicrhau bod unigolion yn mwynhau bywyd i'r eithaf yn amlwg ymysg y tîm rheoli a'r staff. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda. Mae'r systemau monitro ac archwilio effeithiol yn sicrhau bod y gofal a'r cymorth a ddarperir o safon uchel ac yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer y bobl. Dywedodd gweithiwr iechyd proffesiynol wrthym, "*I know the home follow the care plans to the book, but they certainly go well beyond the care plan to ensure their residents are well care for".*

Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwyr yn darparu arweinyddiaeth gref i'r staff a chânt eu disgrifio'n gymwynasgar ac yn gefnogol. Caiff hyn ei adlewyrchu drwy'r tîm sefydlog o staff gofal, y mae llawer ohonynt wedi gweithio yn y gwasanaeth ers nifer o flynyddoedd. Dywedodd gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth wrthym; "*There is clear investment in the staff which supports the wellbeing of staff and the residents they care for".* Mae gan y cyfarwyddwr, sef y rheolwr hefyd, gefndir o weithio mewn gwasanaethau iechyd meddwl ac mae ganddo brofiad helaeth yn y maes. Mae'r arbenigedd hwn yn darparu arweiniad a chymorth clir ac amhrisiadwy i'r bobl a'r staff.

Mae rheolwr hyfforddiant yn sicrhau bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol diweddaraf. Mae'r cyfarwyddwr hefyd yn darparu hyfforddiant penodol er mwyn meithrin y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar y staff i gefnogi'r bobl yn effeithiol. Gan fod y rhan fwyaf o'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth wedi cael diagnosis o salwch meddwl parhaus, mae pob aelod o'r staff, gan gynnwys y staff domestig, wedi cwblhau hyfforddiant ar seicosis. Dywedodd un aelod o'r staff, "*The psychosis training helped me understand why people do what they do".*

Mae'r cofnodion yn dangos bod system gadarn ar waith ar gyfer recriwtio staff newydd. Cesglir y geirdaon gofynnol a chaiff gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwiriadau o fanylion adnabod eu cwblhau cyn iddynt ddechrau.

Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd. Mae hyn yn rhoi'r cyfle iddynt fyfyrio ar eu hymarfer, nodi meysydd ar gyfer hyfforddiant a chodi unrhyw faterion a all fod ganddynt. Cynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd hefyd a rhoddir cyfle i'r staff gynnig pynciau ychwanegol o'u dewis i'w trafod.

Buddsoddir yn barhaus yn y gwasanaeth ac mae cynlluniau arloesol a hirdymor ar waith i greu fflatiau hunangynhwysol yn dilyn prynu'r eiddo drws nesaf. Mae'r darparwr yn gobeithio y bydd hyn yn sicrhau canlyniadau gwell i'r bobl ac yn eu grymuso i fod yn fwy annibynnol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 36 | Nid yw pob aelod o'r staff wedi cael ei oruchwylio'n rheolaidd ac ni ellid darparu dyddiadau/cofnodion mewn perthynas â goruchwylio'r staff. Dylid sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael ei oruchwylio a'i arfarnu'n rheolaidd. | Cyflawnwyd |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 12/12/2023